# Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Atal, Ymchwilio, Gorfodi ac Erlyn Troseddau Treftadaeth ac Eiddo Diwylliannol ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu

Gwasanaeth Erlyn y Goron

Historic England

Cadw, Llywodraeth Cymru

## 1. Diben

1.1 Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn (MC) yn amlinellu sut y bydd y partïon yn gweithio mewn partneriaeth ar atal, ymchwilio, gorfodi ac erlyn troseddau treftadaeth ac eiddo diwylliannol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ar lefel strategol genedlaethol ac ar lefel gwaith achos lleol.

1.2 Bydd asesiad strategol cenedlaethol blynyddol o'r bygythiadau o droseddau treftadaeth ac eiddo diwylliannol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a fydd yn llywio cynllun gweithredu i'w ddilyn ar gyfer y partïon sy'n ymrwymo i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn.

1.3 Diffinnir troseddau treftadaeth ac eiddo diwylliannol at ddibenion y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn fel –

'Unrhyw drosedd sy'n niweidio gwerth asedau treftadaeth Cymru a Lloegr a'u lleoliadau i'r genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol ac yn cynnwys pob trosedd sy'n ymwneud ag eiddo diwylliannol.'

1.4 Mae asedau treftadaeth yng Nghymru a Lloegr yn cynnwys:

- Adeiladau rhestredig;
- Henebion cofrestredig;
- Safleoedd llongddrylliadau morol gwarchodedig;
- Olion milwrol gwarchodedig awyrennau a llongau o ddiddordeb hanesyddol;
- Lleoliadau hysbys meysydd brwydrau gan gynnwys meysydd brwydrau cofrestredig;
- Parciau a gerddi cofrestredig;
- Ardaloedd Cadwraeth;
- Safleoedd Treftadaeth y Byd; ac,
- Adeiladau a safleoedd treftadaeth cydnabyddedig ond heb eu dynodi.

1.5 Diffinnir eiddo diwylliannol yn y Confensiwn ar Ddiogelu Eiddo Diwylliannol mewn Achos o Wrthdaro Arfog fel 'eiddo symudol neu ansymudadwy o bwysigrwydd mawr i dreftadaeth ddiwylliannol pob unigolyn' ac mae gwrthrychau megis paentiadau, gemwaith, llenyddiaeth, cerflunwaith, cerameg a chrochenwaith a geir yn aml mewn amgueddfeydd, archifau, llyfrgelloedd, a chartrefi preifat neu blastai yn cael eu hystyried fel asedau treftadaeth hefyd. Mae gan lawer o nwyddau treftadaeth werth cynhenid hefyd gan eu bod wedi'u gwneud o gerrig neu fetelau gwerthfawr, neu ddeunyddiau gwerthfawr eraill.

## 2. Partïon y Cytundeb

2.1 Dyma bartïon y cytundeb hwn:

- Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu
- Gwasanaeth Erlyn y Goron
- Historic England
- Cadw, Llywodraeth Cymru

## 3. Swyddogaethau llofnodwyr a chyrff cysylltiedig

3.1 Mae **Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon** yn gweithio ar ran gwasanaeth yr heddlu i ddatblygu polisïau plismona ac at ddibenion y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ac yn llofnodwr ar ran yr holl heddluoedd yng Nghymru a Lloegr.

3.2 Mae gan yr **Heddlu** ddyletswydd i amddiffyn bywyd, i warchod eiddo ac i atal a chanfod troseddau. Mae gan yr Heddlu rôl i atal ac ymchwilio i droseddau sy’n cynnwys troseddau treftadaeth a’r amgylchedd hanesyddol a nhw yw’r asiantaeth arweiniol ar gyfer ymchwilio i’r troseddau hynny a nodir yn *Atodiad 1.*

3.3 Mae **Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS)** yn erlynydd annibynnol ac mae'n gyfrifol am:

i. Rhoi cyngor i'r heddlu drwy gydol y broses ymchwiliol ac erlyn. Mae hyn yn cynnwys cyngor ar y gyfraith, posibiliadau ymchwilio rhesymol, cyhuddiadau posibl, gofynion tystiolaeth, gweithdrefnau cyn cyhuddo, rheoli datgelu, adfer asedau a'r strategaeth ymchwilio gyffredinol. Gall hyn gynnwys penderfyniadau i fireinio neu leihau cwmpas yr ymddygiad troseddol a nifer yr unigolion dan amheuaeth sy'n destun ymchwiliad.

ii. Cynghori ar adfer asedau a'r strategaeth ariannol a dewis cyhuddiadau sy'n caniatáu i orchymyn atafaelu gael ei wneud mewn achosion priodol. Gydag achosion lle gall fod angen ataliad, dylid eu cyfeirio at Enillion Troseddau CPS cyn gynted ag y bydd y mater yn codi.

iii. Nodi a chynghori ar ddiffygion mewn tystiolaeth a dod i gasgliad yn fuan ar yr achosion hynny na ellir eu cryfhau drwy ymchwilio ymhellach.

iv. Darparu cynlluniau gweithredu cyn ac ar ôl cyhuddo ar gyfer mesurau ymchwilio pellach, lle mae'n gymesur ac yn angenrheidiol, gydag amserlenni priodol.

v. Rhoi cyngor ysgrifenedig ar gyhuddiad, gan gynnwys a yw'n briodol ac er budd y cyhoedd i'r achos gael ei drin gan rybudd oedolion neu ieuenctid neu rybudd amodol.

vi. Cydymffurfio â rhwymedigaethau datgelu erlynydd.

vii. Cyflwyno pob dogfen o fewn yr amser a bennir gan y gyfraith neu drwy orchymyn y llys.

viii. Cynnal achosion troseddol, gan gynnwys apeliadau.

ix. Gwneud penderfyniadau i derfynu achosion, i ollwng neu ychwanegu cyhuddiadau, a derbyn pledion i drosedd lai. Lle bo modd, bydd yr erlynydd yn ymgynghori â'r heddlu cyn i benderfyniadau o'r fath gael eu gwneud; a byddant yn egluro'r rhesymeg sy'n sail iddynt ar gyfer pob penderfyniad o'r fath.

x. Dewis a chyfarwyddo cwnsler i gynghori ar achosion ac i gynnal achosion, lle bo hynny'n briodol. Rhaid i eiriolwyr feddu ar y sgiliau a'r arbenigedd angenrheidiol i erlyn yr achos dan sylw, boed yn aelod cymeradwy o Banel Eiriolwyr y CPS, o'r Bar hunangyflogedig, neu'n Eiriolwr y Goron y CPS.

xi. Hysbysu'r heddlu am ofynion tystion a gwneud ceisiadau am fesurau arbennig i dystion, lle bo hynny'n briodol.

xii. Hysbysu'r heddlu am ganlyniad terfynol yr achos.

3.4 Mae **Historic England (HE)** yn gorff cyhoeddus anadrannol sy’n gyfrifol am bob agwedd ar ddiogelu a hyrwyddo’r amgylchedd hanesyddol yn Lloegr. Historic England yw cynghorydd statudol y Llywodraeth ar yr amgylchedd hanesyddol.

3.5 **Cadw** yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru ac mae’n rhan o’r Adran Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth. Mae Cadw yn gweithio i warchod henebion, adeiladau a strwythurau hanesyddol, tirweddau a safleoedd treftadaeth Cymru, fel y gall y cyhoedd ymweld â nhw, eu mwynhau a deall eu harwyddocâd. Mae Cadw yn rheoli 130 Eiddo mewn Gofal.

3.6 Mae **awdurdodau lleol** yn gyrff annibynnol etholedig ac ymreolaethol sy'n annibynnol i raddau helaeth ar lywodraeth ganolog ac yn uniongyrchol atebol i'w hetholwyr. Mae eu cyfrifoldebau'n amrywio yn dibynnu ar y math o awdurdod ond maen nhw'n cynnwys, er enghraifft, cynllunio, treftadaeth, addysg, rheoli gwastraff, tai, diogelwch cymunedol a lleihau troseddau ac ati. Rhoddir eu pwerau iddynt gan Ddeddfau Seneddol. Rhoddir rhai pwerau i bob awdurdod lleol a rhai i fathau penodol yn unig. Mae gan awdurdodau lleol rôl hanfodol wrth gynrychioli buddiannau eu dinasyddion ac wrth gomisiynu gwasanaethau lleol.

3.7 Dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Deddf Cynllunio a Digolledu 1991, dynodir Cynghorau Dosbarth, Cynghorau Sir, Cynghorau Unedol, Cynghorau Dosbarth Metropolitanaidd a Chynghorau Bwrdeistref Llundain ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol (mewn Parciau Cenedlaethol) yn awdurdodau cynllunio lleol. Mae gan awdurdodau cynllunio lleol ddyletswydd i baratoi cynlluniau datblygu ar gyfer eu hardal, dylai cynlluniau o'r fath ystyried yr amgylchedd hanesyddol. Maen nhw'n rheoli datblygiadau drwy ganiatáu a gwrthod ceisiadau cynllunio ac maen nhw'n gyfrifol hefyd am benderfynu ar geisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig a chydsyniad ardal gadwraeth yn eu hardal.

3.8 Mae ganddynt y pŵer i orfodi yn erbyn datblygiadau anawdurdodedig (torri rheolaeth gynllunio), dymchwel neu addasu adeiladau rhestredig yn anawdurdodedig a dymchwel adeiladau heb eu rhestru mewn ardaloedd cadwraeth yn anawdurdodedig. Mae ganddynt y pŵer hefyd i orfodi amodau sydd ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio, cydsyniadau adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth.

3.9 O fewn telerau Adran 17 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, mae gan awdurdodau cyfrifol ddyletswydd statudol i gydweithio ag asiantaethau a sefydliadau lleol eraill i ddatblygu a gweithredu strategaethau i fynd i'r afael â throseddau ac anhrefn gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol yn eu hardal llywodraeth leol. Dylai strategaeth o'r fath gynnwys yr amgylchedd hanesyddol ac asedau treftadaeth cysylltiedig o fewn yr ardal ddiffiniedig honno.

3.10 Ardal llywodraeth leol yn Lloegr at y diben hwn yw ardal neu Fwrdeistref Llundain (mae hyn yn cynnwys awdurdod unedol), Dinas Llundain, Ynys Wyth ac Ynysoedd Scilly. Yr awdurdod cyfrifol yw'r Cyngor ar gyfer yr ardal honno ac, os yw'n ardal (ac nid yn awdurdod unedol), y Cyngor dros y Sir sy'n cynnwys yr ardal. Mae *Atodiad 2* yn dangos rhestr gyfredol o Awdurdodau Lleol, Parciau Cenedlaethol a Chyrff Cysylltiedig sydd wedi llofnodi'r memorandwm hwn.

3.11 Bydd NPCC, HE, Cadw ac awdurdodau lleol yn cydweithio'n agos â'r **Gweithgor Cenedlaethol ar gyfer Troseddau Treftadaeth ac Eiddo Diwylliannol (NHCPWG)** a'r grŵp rhanddeiliaid ehangach **ARCH - yr Alliance to Reduce Crime against Heritage**.

3.12 Nod NHCPWG ac ARCH fydd cyfrannu eu dealltwriaeth o natur troseddau treftadaeth ac eiddo diwylliannol o bryd i'w gilydd i lywio'r Asesiad Strategol Cenedlaethol o Fygythiadau ac i gynorthwyo i weithredu'r cynllun tactegol hwnnw'n effeithiol yn sgil yr asesiad strategol hwnnw ar lefel ranbarthol a lleol.

## 4. Ymchwiliadau

4.1 Mae'r partïon i'r Memorandwm hwn wedi ymrwymo i sicrhau bod unrhyw ymchwiliad i drosedd treftadaeth neu eiddo diwylliannol yn drylwyr, yn effeithlon, ac yn cael ei gynnal i safon uchel ac yn unol ag unrhyw brosesau mewnol sydd mewn grym ar y pryd yn y sefydliadau dan sylw. Bydd Blaenoriaethau Cenedlaethol a'r Strategaeth Reoli ar gyfer Troseddau Treftadaeth ac Eiddo Diwylliannol, a nodwyd yn yr Asesiad Strategol Cenedlaethol o Fygythiadau, yn rhoi ffocws i'r dull partneriaeth ond dylai penderfyniadau mewn perthynas â phwy fydd yn arwain ymchwiliad, a'r cyfeiriad y bydd yn ei gymryd, fod yn amserol, wedi'u llywio gan y dystiolaeth a'r arbenigedd technegol gorau sydd ar gael, a dylent ystyried y Memorandwm hwn a budd y cyhoedd yn ehangach. Pe bai unrhyw fater yn codi ynghylch pwy fydd yn rhan o'r gwaith o ymchwilio i droseddau treftadaeth ac eiddo diwylliannol, yna bydd y partïon yn cydweithio i ddod i gasgliad.

4.2 Yng Nghymru a Lloegr, yr heddlu sy'n gyfrifol am ymchwilio i'r rhan fwyaf o droseddau sy'n ymwneud ag asedau treftadaeth ac eiddo diwylliannol, gyda chymorth arbenigwyr pwnc o HE a Cadw.

4.3 Yn Lloegr, HE fydd yn arwain ymchwiliadau sy'n ymwneud â gwaith anawdurdodedig i henebion cofrestredig. Bydd yr heddlu'n darparu cymorth pan fo hynny'n briodol.

4.4 Yng Nghymru, bydd yr heddlu rhanbarthol yn arwain ar ymchwiliadau sy'n ymwneud â gwaith anawdurdodedig a difrod i henebion cofrestredig, gyda chymorth arbenigwyr pwnc o Cadw.

4.5 Bydd Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA) yn arwain ar yr ymchwiliadau hynny sy'n ymwneud ag achub llongddrylliad yn anghyfreithlon. Bydd yr heddlu, HE a Cadw yn darparu cymorth pwnc lle y bo hynny'n briodol.

4.6 Bydd heddluoedd yn nodi bod y troseddau'n ymwneud â cholli neu ddifrodi asedau treftadaeth a/neu eiddo diwylliannol pan fydd ffeil yn cael ei chyflwyno i'r CPS am gyngor cynnar neu benderfyniad i erlyn. Bydd hyn yn sicrhau bod Cydlynydd rhanbarthol Troseddau Treftadaeth ac Eiddo Diwylliannol y CPS yn ymwybodol o ymchwiliadau ac achosion sydd ar y gweill.

4.7 Dylid cyfeirio achosion sy'n gymwys dan Ganllawiau'r Cyfarwyddwr ar gyhuddo, sy'n cael eu hymchwilio gan yr heddlu, at y CPS am benderfyniad cyhuddo. Mewn achosion sy'n bodloni'r meini prawf o dan atodiad 6 o Ganllawiau'r Cyfarwyddwr ar gyhuddo (6$^{ed}$ argraffiad), dylid ystyried gofyn am gyngor cynnar gan Gydgysylltwyr Troseddau Gwledig, Bywyd Gwyllt a Threftadaeth Ardal y CPS.

4.8 Pan fo un sefydliad yn cytuno i arwain ar achos, bydd y corff hwnnw'n parhau i fynd â'r achos hwnnw i'w gasgliad fel arfer hyd yn oed os penderfynir peidio â dilyn cam gorfodi y byddai'r corff priodol yn gyfrifol amdano fel arfer. Os nad yw hyn yn bosibl, bydd achosion yn cael eu trosglwyddo i gorff gorfodi perthnasol arall i'w gweithredu dim ond os yw'r corff arall hwnnw'n cytuno ymlaen llaw. Yna bydd yr holl wybodaeth sy'n ymwneud â'r achos hwnnw ar gael yn ddi-oed gan gynnwys yr holl arddangosion ac unrhyw ddeunydd nas datgelwyd.

4.9 Mae'r CPS yn gyfrifol am adolygu ac erlyn achosion sy'n cael eu cyfeirio ato gan yr heddlu, yn unol â'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron. Cyn i droseddwyr gael eu cyhuddo o droseddau'n ymwneud â cholli neu ddifrod i asedau treftadaeth neu eiddo diwylliannol neu os gwneir penderfyniad i beidio â chymryd camau pellach, bydd yr heddlu'n cysylltu'n gynnar â HE, Cadw ac asiantaethau partner cysylltiedig i drafod goblygiadau posibl y penderfyniad a, lle bo hynny'n briodol, yn hysbysu dioddefwyr, tystion a pharatoi datganiad i'r cyfryngau.

4.10 Mewn achosion lle mae cydsyniad heneb gofrestredig neu amod trwyddedu wedi'i dorri yn Lloegr, bydd HE yn gweithredu fel y prif awdurdod ymchwilio ac erlyn ond gall ofyn am gymorth gan yr heddlu os oes angen. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol os caiff y drosedd ei dosbarthu fel 'digwyddiad tyngedfennol'[1] neu 'ddigwyddiad mawr'[2] y bydd angen ymateb ac ymchwiliad amlasiantaeth cydgysylltiedig ar ei chyfer.

4.11 Mewn achosion lle mae cydsyniad heneb gofrestredig wedi ei dorri neu amod trwyddedu wedi ei thorri yng Nghymru, bydd yr Heddlu perthnasol yn cynnal yr ymchwiliad ar y cyd â Cadw. Yn yr achosion hyn, mae'r CPS yn gweithredu fel yr awdurdod erlyn ar gyfer y troseddau sylweddol y rhoddwyd y cydsyniad neu'r trwyddedau ar eu cyfer er mwyn lliniaru. Mae hyn yn ymwneud â throseddau a gyflawnwyd gan berchennog, meddiannydd, neu reolwr heneb gofrestredig.

## 5. Camau cyfreithiol

5.1 Cyfrifoldeb y corff erlyn priodol, sef Gwasanaeth Erlyn y Goron neu HE, yw penderfynu a ddylid cychwyn achos troseddol ai peidio. Er hynny, nid yw camau gorfodi a gymerir gan un sefydliad yn atal sefydliad arall rhag cymryd camau os ystyrir hynny'n briodol, ar yr amod nad oes erlyniad dwbl na materion eraill yn ymwneud â chamddefnyddio proses.

[1] College of Policing - Introduction (college.police.uk)

[2] Definitions (college.police.uk)

5.2 Yn ogystal ag erlyn, mae gan HE a Cadw fynediad at nifer o fecanweithiau gorfodi, gan gynnwys cyngor a chanllawiau, llythyrau rhybuddio, cosbau sifil (troseddau priodol) a rhybuddion. Mae'r canlyniadau hyn yn mynd i'r afael â throseddau mewn modd tryloyw, atebol, cyson, cymesur ac wedi'i dargedu. Bydd cyflwyno Datrysiadau Cymunedol, fel canlyniad, lle y bo'n briodol, yn golygu y gall yr heddlu ymdrin â throseddau'n gymesur, ac yn benodol, wrth ymdrin â throseddau yn erbyn asedau treftadaeth, yn gallu cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd hanesyddol.

5.3 Pan fo ymchwiliad wedi'i gynnal mewn partneriaeth, gall y sefydliadau sy'n rhan o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ac sydd wedi cyfrannu at yr ymchwiliad hwnnw gyflwyno sylwadau ar benderfyniadau'n ymwneud ag achosion. Ond mae'r penderfyniad i ddechrau neu barhau ag erlyniad yn nwylo'r heddlu/CPS. Bydd y CPS yn gwneud ei benderfyniadau yn unol â'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron.

## Rolau a Chyfrifoldebau i Atal, Ymchwilio, Erlyn, Cynorthwyo a Chynghori ar Droseddau Treftadaeth

### 6. Adeiladau Rhestredig

6.1 Mae gan awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan fel rhan o'u swyddogaeth fel awdurdod cynllunio lleol ddyletswydd i atal, ymchwilio a lle y bo'n briodol erlyn gwaith anawdurdodedig neu ddifrod bwriadol (pan fo hyn yn cael ei achosi gan y perchennog neu'r meddiannydd) i adeiladau rhestredig, achosion o dorri amodau sydd ynghlwm wrth gydsyniad adeilad rhestredig ac achosion o dorri hysbysiadau gorfodi adeiladau rhestredig. Nodir y troseddau rheoleiddio penodol hyn yn gryno yn *Atodiad 1.*

6.2 Bydd yr Heddlu, HE, a Cadw yn darparu cymorth a chyngor mewn ymgyrchoedd i atal troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a, phan fo angen eu harbenigedd ac os yw adnoddau'n caniatáu, wrth ymchwilio ac erlyn unrhyw gyfryw droseddau.

6.3 Yr heddlu sy'n gyfrifol am atal ac ymchwilio i droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n ymwneud â niwed a cholled i adeiladau rhestredig, fel lladrad a difrod troseddol.

6.4 Mae'r CPS yn gyfrifol am erlyn y cyfryw droseddau pan fo digon o dystiolaeth, a bod gwneud hynny er budd y cyhoedd.

6.5 Awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan pan fo hyn yn effeithio ar ardal eu llywodraeth leol; ac, mae gan HE a Cadw ddyletswydd i gynorthwyo a chynghori mewn unrhyw ymgyrchoedd i atal troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, a, phan fo angen eu harbenigedd ac os yw adnoddau'n caniatáu, wrth ymchwilio ac erlyn unrhyw droseddau.

## 7. Ardaloedd Cadwraeth

7.1 Mae gan awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan fel rhan o'u swyddogaeth fel awdurdod cynllunio lleol ddyletswydd i atal, ymchwilio ac erlyn dymchweliadau anawdurdodedig o fewn ardaloedd cadwraeth, unrhyw achosion o dorri amodau cydsyniad ardal gadwraeth a hysbysiadau gorfodi ardal gadwraeth. Nodir y troseddau rheoleiddio penodol hyn yn gryno yn *Atodiad 1.*

7.2 Bydd yr heddlu, HE a Cadw yn darparu cymorth a chyngor mewn unrhyw ymgyrchoedd i atal troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a, phan fo angen eu harbenigedd ac os yw adnoddau'n caniatáu, wrth ymchwilio ac erlyn unrhyw droseddau o'r fath. Yr heddlu sy'n gyfrifol am atal ac ymchwilio i droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n ymwneud â cholled neu niwed i ardaloedd cadwraeth, fel lladrad, difrod troseddol, anhrefn cyhoeddus etc.

7.3 Mae'r CPS yn gyfrifol am erlyn y cyfryw droseddau pan fo'r achosion yn cael eu cyfeirio gan yr heddlu a phan fo digon o dystiolaeth, a bod gwneud hynny er budd y cyhoedd.

7.4 Mae gan HE a Cadw ac awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan, lle mae hyn yn effeithio ar eu hardal llywodraeth leol, ddyletswydd i gynorthwyo a chynghori mewn unrhyw ymgyrchoedd i atal troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a, phan fo angen eu harbenigedd ac os yw adnoddau'n caniatáu, wrth ymchwilio ac erlyn unrhyw droseddau perthnasol.

## 8. Henebion Cofrestredig

8.1 Mae gan HE ddyletswydd i atal, ymchwilio ac erlyn gwaith anawdurdodedig a difrod i henebion cofrestredig (gwaith heb gydsyniad heneb gofrestredig).

8.2 Mae gan Cadw ddyletswydd i atal a chefnogi'r heddlu a'r CPS wrth ymchwilio ac erlyn gwaith anawdurdodedig a difrod i henebion cofrestredig (gwaith heb gydsyniad heneb gofrestredig).

8.3 Bydd yr heddlu a'r awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan yn darparu cymorth a chyngor mewn unrhyw ymgyrchoedd atal a, phan fo angen eu harbenigedd ac os yw adnoddau'n caniatáu, wrth ymchwilio ac erlyn unrhyw droseddau.

8.4 Yr heddlu sy'n gyfrifol am atal ac ymchwilio i droseddau sy'n arwain at niwed i henebion cofrestredig gan gynnwys difrod a gweithgarwch canfod metel anghyfreithlon sy'n groes i'r gyfraith. Bydd hyn yn cynnwys dwyn neu symud ymaith wrthrychau neu arteffactau cysylltiedig.

8.5 Mae'r CPS yn gyfrifol am erlyn y cyfryw droseddau pan fo'r achosion yn cael eu cyfeirio gan yr heddlu a phan fo digon o dystiolaeth, a bod gwneud hynny er budd y cyhoedd.

8.6 Bydd gan HE a Cadw, ac awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan pan fo hyn yn effeithio ar eu hardal llywodraeth leol ddyletswydd i gynorthwyo a chynghori mewn unrhyw ymgyrchoedd atal a, phan fo angen eu harbenigedd ac os yw adnoddau'n caniatáu, wrth ymchwilio ac erlyn unrhyw droseddau. Crynhoir y troseddau rheoleiddio penodol ar gyfer yr ased treftadaeth hwn yn *Atodiad 1.*

## 9. Safleoedd Llongddrylliadau Morol Gwarchodedig

9.1 Mae'r heddlu mewn partneriaeth ag Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA), Derbynnydd y Llongddrylliad, HE a Cadw yn gyfrifol am atal ac ymchwilio i weithgareddau anawdurdodedig mewn perthynas â safleoedd llongddrylliadau a ddynodwyd yn 'ardaloedd dan gyfyngiadau' fel y'u diffinnir gan Ddeddf Diogelu Llongddrylliadau 1973.

9.2 Bydd Derbynnydd y Llongddrylliad yn gweithio mewn partneriaeth â'r heddlu, HE a Cadw lle bu methiant i adrodd am ganfyddiad llongddrylliad dan Ddeddf Llongau Masnach 1995. Unwaith eto, nodir y troseddau rheoleiddio penodol yn gryno yn *Atodiad 1.*

9.3 Mae'r CPS yn gyfrifol am erlyn y cyfryw droseddau pan fo'r achosion yn cael eu cyfeirio gan yr heddlu a phan fo digon o dystiolaeth, a bod gwneud hynny er budd y cyhoedd.

9.4 Bydd awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan lle mae hyn yn effeithio ar eu hardal llywodraeth leol yn darparu cymorth a chyngor mewn unrhyw ymgyrchoedd atal a, phan fo angen eu harbenigedd ac os yw adnoddau'n caniatáu, wrth ymchwilio ac erlyn troseddau o'r fath pan nad ydynt yn cael eu herlyn gan y CPS.

## 10. Olion Milwrol Gwarchodedig o Awyrennau a Llongau o Ddiddordeb Hanesyddol

10.1 Bydd yr heddlu, mewn partneriaeth â'r Weinyddiaeth Amddiffyn, yn ysgwyddo cyfrifoldeb am atal ac ymchwilio i weithgareddau anawdurdodedig mewn perthynas ag awyrennau milwrol sydd wedi cwympo a llongau milwrol sydd wedi suddo neu fynd yn sownd sydd o fewn lle gwarchodedig neu safle a reolir. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn ymwneud â'r awyrennau a'r llongau milwrol hynny sydd o ddiddordeb hanesyddol. Unwaith eto, nodir y troseddau rheoleiddio penodol ar gyfer yr ased treftadaeth hwn yn gryno yn *Atodiad 1*.

10.2 Mae'r CPS yn gyfrifol am erlyn y cyfryw droseddau pan fo'r achosion yn cael eu cyfeirio gan yr heddlu a phan fo digon o dystiolaeth, a bod gwneud hynny er budd y cyhoedd.

10.3 Bydd awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan lle mae hyn yn effeithio ar eu hardal llywodraeth leol a HE a Cadw yn rhoi cymorth a chyngor mewn unrhyw ymgyrchoedd atal a, phan fo angen eu harbenigedd ac os yw adnoddau'n caniatáu, wrth ymchwilio ac erlyn troseddau o'r fath.

## 11. Safleoedd Eraill o Arwyddocâd Hanesyddol

11.1 Mae yna safleoedd arwyddocaol nad oes ganddynt drefn cydsynio ar wahân a dim troseddau rheoleiddio penodol sy'n gysylltiedig â nhw, ac mae'r safleoedd hyn yn cynnwys Parciau a Gerddi Cofrestredig, Meysydd Brwydrau a Safleoedd Treftadaeth y Byd.

11.2 Fodd bynnag, gall troseddau fel dwyn, difrod troseddol, a throseddau ymddygiad gwrthgymdeithasol arwain at niwed i'r asedau treftadaeth hyn. Mae hyn yn berthnasol hefyd i safleoedd o bwysigrwydd hanesyddol heb eu dynodi fel safleoedd archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol (sydd heb eu rhestru fel henebion) ac adeiladau o bwysigrwydd lleol.

11.3 Yr heddlu sy'n gyfrifol am atal ac ymchwilio i droseddau sy'n arwain at niwed i'r safleoedd hyn, fel dwyn, difrod troseddol, a throseddau ymddygiad gwrthgymdeithasol.

11.4 Mae'r CPS yn gyfrifol am erlyn y cyfryw droseddau pan fo'r achosion yn cael eu cyfeirio gan yr heddlu a phan fo digon o dystiolaeth, a bod gwneud hynny er budd y cyhoedd.

11.5 Bydd awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan lle mae hyn yn effeithio ar eu hardal llywodraeth leol a HE a Cadw yn rhoi cymorth a chyngor mewn unrhyw ymgyrchoedd atal a, phan fo angen eu harbenigedd ac os yw adnoddau'n caniatáu, wrth ymchwilio ac erlyn unrhyw droseddau nad ydynt yn cael eu herlyn gan y CPS.

## 12. Eitemau'n cael eu Symud yn Anghyfreithlon o Asedau Treftadaeth

12.1 Pan fo eitemau sy'n cael eu hamau o fod wedi eu tynnu o ased treftadaeth yn dod i sylw HE, Cadw ac Awdurdodau Lleol, mae gan bob un gyfrifoldeb i hysbysu'r heddlu sy'n gyfrifol am ymchwilio i droseddau cysylltiedig posibl fel dwyn a thrafod nwyddau wedi'u dwyn.

12.2 Mae'r CPS yn gyfrifol am erlyn y cyfryw droseddau pan fo digon o dystiolaeth, a bod gwneud hynny er budd y cyhoedd.

12.3 Bydd awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan lle mae hyn yn effeithio ar eu hardal llywodraeth leol a HE a Cadw yn rhoi cymorth a chyngor mewn unrhyw ymgyrchoedd atal a, phan fo angen eu harbenigedd ac os yw adnoddau'n caniatáu, wrth ymchwilio ac erlyn unrhyw droseddau lle nad ydynt yn cael eu herlyn gan y CPS.

12.5 Caiff adroddiadau am Drysor eu cydlynu yn Lloegr drwy Gynllun Hynafiaethau Cludadwy'r Amgueddfa Brydeinig ac yng Nghymru gan Gynllun Hynafiaethau Cludadwy Amgueddfa Cymru, sydd hefyd yn cofnodi er budd y cyhoedd pob gwrthrych archeolegol nad yw'n drysor sydd wedi'i ganfod a'i adrodd yn wirfoddol gan aelodau'r cyhoedd.

## 13. Rhannu Gwybodaeth a Datgelu

13.1 Er budd arferion gorau, anogir cyfnewid data rhwng y sefydliadau, ond o dan amgylchiadau priodol yn unig ac yn unol â deddfwriaeth diogelu data ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall. Ar gyfer unrhyw ddata personol sy'n cael ei rannu'n rheolaidd, rhaid cael cytundeb rhannu gwybodaeth er mwyn sicrhau bod pob parti'n deall pa ddata a fydd yn cael ei rannu; bod modd cyfiawnhau'r wybodaeth sy'n cael ei rhannu, a'i bod yn gymesur ac yn angenrheidiol; a bod y data'n cael ei rannu'n ddiogel. Bydd Cytundeb Rhannu Gwybodaeth (ISA) yn helpu i atal achosion o dorri data hefyd.

13.2 Lle bo angen, bydd y sefydliadau'n sefydlu gweithdrefnau i rannu data a deallusrwydd yn lleol ac yn genedlaethol. Anogir pob parti i rannu data a deallusrwydd gydag OPAL – y National Acquisitive Crime Intelligence Unit.

13.3 Mae gan bob corff sy'n erlyn ddyletswyddau'n ymwneud â datgelu deunydd nas defnyddir ac mae disgwyliad y bydd partïon eraill y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cynorthwyo mewn perthynas â darparu deunydd trydydd parti.

## 14. Gweithio mewn Partneriaeth

14.1 Mae gan weithio mewn partneriaeth rôl sylfaenol yn y gwaith o fynd i'r afael â Throseddau Treftadaeth ac Eiddo Diwylliannol ar lefel weithredol yn lleol ac ar lefel strategol yn genedlaethol. Bydd gweithio mewn partneriaeth yn galluogi'r holl bartïon i ganolbwyntio adnoddau ac ymdrechion ar Flaenoriaethau Troseddau Treftadaeth ac Eiddo Diwylliannol.

14.2 Yng Nghymru a Lloegr, bydd Partneriaethau Lleol ar gyfer Troseddau Treftadaeth ac Eiddo Diwylliannol yn galluogi HE a Cadw, Awdurdodau Lleol, y CPS a'r heddlu i fynd i'r afael â Throseddau Treftadaeth ac Eiddo Diwylliannol yn effeithiol ac yn briodol ar lefel genedlaethol a lleol. Bydd Partneriaethau Lleol ar gyfer Troseddau Treftadaeth ac Eiddo Diwylliannol yn nodi rolau a chyfrifoldebau gweithredol ac yn nodi trefniadau gweithio effeithiol rhwng y cyrff sy'n cymryd rhan. Bydd hyn yn sicrhau, ymysg materion eraill, bod y partner sydd â'r pwerau gorfodi mwyaf priodol yn cymryd y prif gamau gorfodi mewn achosion unigol. Mae Partneriaethau Lleol ar gyfer Troseddau Treftadaeth ac Eiddo Diwylliannol yn gysyniad sy'n datblygu yng Nghymru a Lloegr a bydd y partïon sy'n rhan o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn ceisio annog a meithrin mentrau newydd a mentrau sy'n bodoli eisoes.

14.3 Yng Nghymru, mae partneriaeth Cadw â Swyddogion Cyswllt Troseddau Treftadaeth o'r pedwar Heddlu yng Nghymru, gydag un pwynt cyswllt ar gyfer troseddau treftadaeth Cymru gyfan yn cael ei gynnal gan Heddlu Dyfed-Powys ar hyn o bryd.

14.4 Bydd pob parti sy'n rhan o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn cydweithio'n agos â Gweithgor Cenedlaethol NPCC ar gyfer Troseddau Treftadaeth ac Eiddo Diwylliannol ac ARCH – yr Alliance to Reduce Crime against Heritage. Bydd hyn yn galluogi'r Gweithgor i wneud y canlynol: darparu trosolwg strategol o weithgarwch gorfodi, ystyried a datblygu ymatebion i broblemau strategol, edrych ar faterion sy'n peri pryder strategol er mwyn bodloni ei amcan i dynnu sylw at broblem gynyddol Troseddau Treftadaeth ac Eiddo Diwylliannol a chodi ymwybyddiaeth o'r angen am gamau gorfodi; ac, i lywio'r gwaith o baratoi asesiad strategol a chynllun tactegol sy'n deillio o'r asesiad hwnnw ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.

## 15. Canllawiau a Hyfforddiant

15.1 Yn ysbryd gwaith partneriaeth, mae pob parti'n credu bod rhannu gwybodaeth ac arferion gweithio yn fuddiol wrth fynd i'r afael â throseddau treftadaeth. Bydd pob parti'n darparu gwybodaeth, arweiniad a hyfforddiant i'w gilydd yn ddi-dâl fel y mae eu hadnoddau'n caniatáu. Bydd HE a Cadw yn cynhyrchu gwybodaeth, canllawiau a hyfforddiant rhesymol i heddluoedd lleol, y CPS yng Nghymru a Lloegr a swyddogion o asiantaethau partner sy'n ymwneud â'r gwaith o atal troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr amgylchedd hanesyddol. Bydd y CPS yn darparu hyfforddiant ac arweiniad i'w Gydgysylltwyr Troseddau Gwledig, Bywyd Gwyllt a Threftadaeth fel y bo'n briodol. Bydd yr heddlu'n darparu gwybodaeth, arweiniad, a hyfforddiant ar gasglu gwybodaeth, cynnal ymchwiliadau, paratoi gwaith achos ac ymwybyddiaeth o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984.

## 16. Costau a Chyhuddo

16.1 Rhagwelir y bydd y gwasanaethau a ddarperir gan bob parti sy'n rhan o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn ddi-dâl i'w gilydd ym mhob ystyr (boed yn gysylltiedig â'r achos neu mewn meysydd eraill fel darparu hyfforddiant). Ni fydd unrhyw gostau'n cael eu codi heb gytundeb ymlaen llaw.

16.2 Nid yw'r CPS yn gwneud cais fel mater o drefn am gostau ymchwiliol ond lle mae amgylchiadau mewn unrhyw achos penodol sy'n ei gwneud yn gyfiawn ac yn rhesymol i wneud hynny, bydd y CPS yn gwneud ceisiadau yn unol â'r gyfraith a'r egwyddorion a nodir yn ein canllawiau cyfreithiol.

16.3 Os ceisir gorchymyn o'r fath bydd yr heddlu perthnasol yn rhoi hysbysiad cynnar i'r uned CPS berthnasol a bydd yn darparu sail resymegol yn egluro pam mae adfer costau'n gyfiawn ac yn rhesymol.

## 17. Cyhoeddusrwydd

17.1 Bydd pob parti'n ymdrechu i godi ymwybyddiaeth o droseddau treftadaeth, er enghraifft drwy dynnu sylw at faterion allweddol ac achosion o erlyn. Dylid ystyried pob opsiwn posibl o ran y cyfryngau, a dylid defnyddio datganiadau i'r wasg ar y cyd fel mater o drefn pan fo ymchwiliad ar y cyd wedi arwain at erlyniad.

17.2 Dylai datganiadau i'r wasg yng Nghymru fod yn ddwyieithog a lle cyhoeddir datganiadau i'r wasg ar y cyd, dylai'r parti arweiniol wneud y trefniadau cyfieithu. Bydd angen i unrhyw ddatganiad i'r wasg sy'n gysylltiedig â Cadw, gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan Swyddfa'r Wasg Llywodraeth Cymru.

## 18. Cyfathrebu

18.1 At ddibenion y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, dyma'r pwyntiau cyswllt arweiniol:

- Y cyswllt ar gyfer **Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu** yw'r Ditectif Uwch-arolygydd Jon Burgess, Swyddog Staff y Prif Gwnstabl Cynorthwyol (Troseddau Treftadaeth ac Eiddo Diwylliannol).
- Y cyswllt ar gyfer **Gwasanaeth Erlyn y Goron** yw Iwan Jenkins.
- Ar gyfer **Historic England** y cyswllt cenedlaethol yw Mark Harrison FSA, Pennaeth Strategaeth Troseddau Treftadaeth
- Yng Nghymru, Dr Jonathan Berry FSA yw'r cyswllt ar gyfer yr heddlu a **Cadw.**

18.2 Bydd pob gwasanaeth heddlu'n enwebu pwynt cyswllt strategol a thactegol ar gyfer materion sy'n ymwneud ag asedau treftadaeth a'r amgylchedd hanesyddol.

## 19. Adolygiad

19.1 Bydd pob parti yn adolygu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn bob dwy flynedd (o ddyddiad llofnodi'r ddogfen hon). Os yw deddfwriaeth y dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddogfen gael ei hadolygu'n gynt, bydd pob parti'n ymrwymo i wneud hynny ar y cyfle cyntaf.

**Llofnodwyr**

Prif Gwnstabl Cynorthwyol, Cyngor Cenedlaethol Prif Gwnstabliaid yr Heddlu, Rachel Nolan, Arweinydd Troseddau Treftadaeth ac Eiddo Diwylliannol

Gwasanaeth Erlyn y Goron, Paul Stimson, Dirprwy Brif Erlynydd y Goron

Historic England, Duncan Wilson, Prif Weithredwr

Cadw, Dawn Bowden MS, Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip, Llywodraeth Cymru